# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd a gynhaliwyd drwy gyfrwng Zoom ar 22 Hydref 2020.

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AS (Cadeirydd)**,** Zoe Richards (Ysgrifenyddiaeth), Rebecca Phillips (Cofnod), Cllr. Ryaland Doyle, Stephen Thomas, Alex Osborne, Rhys Bowler, Bryn Owen, James Lewis, Maureen Lee, Megan Thomas, Miranda Evans, Helga Uckermann, Karen Warner, Megan John, Adele Battaglia, Wayne Crocker, Sion Jones, Samantha Stickland, Vin West, Gwynfor Lewis, Owen Williams, William Fawcett, Marg McNiel, Rhian Davies, Sian Guest.

**Ymddiheuriadau**: Helen Mary Jones AS.

### 1. Croeso a chyflwyniadau.

Croesawodd y Cadeirydd y grŵp ac agorodd y cyfarfod.

### 1. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi.

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cymryd.

### 2. Cyflwyniadau:

**Ymgyrch i gyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal wedi'i bersonoli yng Nghymru - Rhys Bowler, Samantha Stickland.**

Mae Rhys yn ymgyrchu i Lywodraeth Cymru gyflwyno cyllidebau iechyd personol i alluogi pobl anabl i gael rhagor o ddewis a rheolaeth o ran y gofal y maent yn ei gael. Mae gan Rhys nychdod cyhyrol Duchenne, mae'n defnyddio cadair olwyn ac mae'n llwyr ddibynnol ar beiriant anadlu. Mae angen gofal arno 24 awr y dydd, ond nid yw'r gofal hwn ar gael iddo eto.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno Ymddiriedolaeth Defnyddiwr Annibynnol. Mae Ymddiriedolaeth o'r fath yn cynnwys ymddiriedolwyr, a benodir gan yr unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth, i reoli swm penodol o arian gan y GIG mewn ffordd sy'n rhoi'r unigolyn hwnnw yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau. Nid yw Rhys yn credu y bydd hyn yn rhoi'r rheolaeth a'r dewis llwyr sydd eu hangen arno, a byddai'n well ganddo gael y cyllid yn uniongyrchol.

Mae ei annibyniaeth yn golygu popeth iddo, a dylai unigolion fel fe gael yr un hawl i annibyniaeth a bywyd normal â phawb arall.

**See Around Britain - Marg McNeil.**

Siaradodd Marg am yr ap See Around Britain, a gafodd ei lansio yn 2016. Mae'r ap wedi'i ddylunio i roi gwybod i'r defnyddiwr a yw lleoliad yn ddiogel ac yn hygyrch, yn ôl ei anghenion. Mae'r ap yn gwneud hyn drwy gyflwyno lluniau, fideos a disgrifiadau o wahanol leoliadau. Croesewir cyfraniadau gan bawb. Nid oes unrhyw ap arall yn cynnwys cymaint o wybodaeth mewn un man. Mae See Around Britain bellach yn ehangu'r ap i gynnwys y mesurau newydd sydd ar waith oherwydd COVID. Bydd hyn yn helpu'r bobl sydd fwyaf agored i COVID drwy roi'r hyder iddynt fynd i leoliadau ar ôl gweld yr holl wybodaeth berthnasol ymlaen llaw, gan alluogi iddynt asesu'r risg eu hunain.

Mae sylfaenwyr yr ap yn gofyn am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n weithredol â'r ap, gan gymryd camau i'w hyrwyddo.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid ysgrifennu at Jane Hutt AS, gan anfon copi at Ken Skates ac Eluned Morgan, gyda'r nod o weithio ar draws adrannau'r Llywodraeth. Hefyd, awgrymodd MI y dylid gwahodd Jane Hutt AS i un o gyfarfodydd y grŵp yn y dyfodol i drafod y mater hwn ac unrhyw faterion eraill sy'n codi yn y cyfarfod heddiw.

Cytunodd ZR i lunio ac anfon y llythyr.

**Galwad am Gomisiynydd Anableddau Dysgu – Hunan-Eiriolaeth Prestatyn.**

Mae aelodau Hunan-Eiriolaeth Prestatyn wedi cytuno ar gynnig a gyflwynwyd gan Pobl yn Gyntaf Caerdydd i benodi Comisiynydd Anableddau Dysgu.

Cyflwynwyd y cynnig hwn gerbron Cyngor Cenedlaethol Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan y llynedd, ac ym mis Ionawr 2020 cytunwyd i ymgyrchu dros y cynnig. Mae aelodau Hunan-Eiriolaeth Prestatyn yn credu y byddai Comisiynydd Anableddau Dysgu yn sefyll cornel pobl ac yn amddiffyn eu hawliau. Fodd bynnag, maent yn awyddus i sicrhau nad yw'r rôl yn canolbwyntio'n ormodol ar dde Cymru a bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn parhau i wrando ar hunan-eiriolwyr.

Daeth Hunan-Eiriolaeth Prestatyn i'r casgliadau a ganlyn:

- Mae'n rhaid i'r comisiynydd wrando ar hunan-eiriolwyr.
- Dylid rhannu swydd rhwng person ag anabledd dysgu a pherson arall.
- Mae'n rhaid i'r comisiynydd fod yn annibynnol.
- Dylai hunan-eiriolwyr gael cyfle i gyfweld â'r comisiynydd.
- Dylai'r comisiynydd fod wedi'i leoli yng ngogledd Cymru.

**Pobl Anabl a Gwisgo Mygydau - Rhian Davies.**

Pwysleisiodd Rhian y dryswch ynghylch gwisgo mygydau mewn mannau cyhoeddus caeedig. Mae pobl sydd â chyflyrau iechyd penodol wedi'u heithrio rhag y gofyniad i wisgo mygydau ond mae pobl anabl wedi sôn am achosion o aflonyddu gan y cyhoedd oherwydd nad oeddent yn gwisgo mwgwd. Galwodd RD ar Lywodraeth Cymru i wella'r ffordd y mae'n rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd drwy gyfeirio'n glir at wybodaeth am yr eithriadau o ran gwisgo mwgwd. Mae Anabledd Cymru wedi llunio taflen ffeithiau a phoster, sydd ar gael ar wefan Anabledd Cymru.

**Cwestiynau a sylwadau.**

**Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth, gan ofyn am unrhyw gwestiynau neu sylwadau.**

- Mae bathodynnau a chortynnau gwddf ar gael i bobl sydd ag anableddau cudd wrth iddynt ymweld â gwahanol leoliadau.

- Ategodd WC y gefnogaeth i gyllidebau iechyd personol yng Nghymru, oherwydd y byddai'n galluogi pobl anabl i gael ystod eang o gymorth na ellir ei gyllido drwy'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, fel therapi cerdd.

- Gofynnodd WC a fydd yr ap See Around Britain yn nodi'n benodol pa leoliadau sydd â chyfleusterau toiled Changing Places, gan gyfeirio at y wybodaeth berthnasol ar wefan Changing Places.

  Ymatebodd MM fel a ganlyn: Pan fydd yn bosibl ymweld â lleoliadau eto, caiff ffotograffau o doiledau Changing Places eu tynnu, yn ogystal â ffotograffau o leoliadau diffibrilwyr. Mae See Around Britain yn gobeithio ymgysylltu â Changing Places a Sefydliad Prydeinig y Galon. Yn y cyfamser, gall defnyddwyr ddod o hyd i leoliadau sydd â thoiledau Changing Places drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chwilio' yn yr ap.

- Cafwyd adroddiadau o bobl sydd wedi'u heithrio o'r gofyniad i wisgo mygydau yn cael eu hatal rhag mynd i mewn i siopau hyd yn oed ar ôl iddynt ddangos tystiolaeth eu bod wedi'u heithrio.

- Gan ymateb i gyflwyniad Rhys, cytunodd VW â'r angen i hyrwyddo byw'n annibynnol, ac awgrymodd y dylid dwyn y mater yn ei flaen drwy'r prosesau sydd eisoes yn eu lle. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau cymorth gael eu llunio a'u cytuno ar y cyd. Ar ôl i'r cynllun cymorth gael ei lunio, mae'n rhoi hawl cyfreithiol i'r person gael mynediad llawn at y cymorth hwnnw.

- Mae VW o blaid comisiynydd sy'n trafod pob agwedd ar anabledd, gan bwysleisio y dylid cydweithio yn lle gwahaniaethu rhwng anableddau.

- Ategodd AB yr ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o eithriadau o ran y gofyniad i wisgo mwgwd.

- BO – Mae pobl sydd ag anableddau dysgu am gael comisiynydd sydd ag anabledd dysgu i siarad ar eu rhan.

- RD – Mae gwrthwynebiad diwylliannol i daliadau uniongyrchol, gyda chanran isel o bobl yn manteisio arnynt, sef tua 6 y cant o'r bobl sydd â phecynnau gofal cymdeithasol.

- RD – Mae'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd yn llunio adroddiad ar effaith COVID ar bobl anabl.

- RD – Mae Anabledd Cymru yn lansio ei faniffesto ar 3 Rhagfyr, gan alw am ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yng nghyfraith Cymru. Caiff y cwestiwn a ddylid penodi comisiynydd i orfodi'r gyfraith honno ei thrafod yng nghynhadledd Anabledd Cymru ar 12 Tachwedd.

- RE – Mae'n rhaid i'r sector cyhoeddus a gwleidyddion gael set o safonau ynghylch arferion rheoli y gellir eu hasesu'n annibynnol.

**Unrhyw fusnes arall.**

Roedd dwy eitem o fusnes yn weddill, un gan OW a'r llall gan BF. Oherwydd pwysau amser, penderfynodd OW drafod ei fater ef ar ôl y cyfarfod.

**Asesiadau Taliadau Annibyniaeth Personol.**

Hoffai BF i'r meini prawf ar gyfer taliadau annibyniaeth personol gael eu hadolygu i ganiatáu i gymhorthion ac offer fel dyfeisiau llywio â lloeren gael eu cynnwys.

Nododd MI fod pryderon wedi'u mynegi nad yw'r asesiadau yn gwneud addasiadau rhesymol ynghylch amgylchiadau penodol unigolion. Mae Gweinidogion Llywodraeth y DU yn lansio adolygiad arall, sydd o bosibl yn gyfle i'r grŵp gyflwyno ymateb. Awgrymodd MI y dylai'r grŵp ysgrifennu i ofyn pa ymchwiliadau eraill y mae Llywodraeth y DU naill ai'n eu cynnal ar hyn o bryd neu'n bwriadu eu cynnal er mwyn iddo geisio cyfrannu atynt. Opsiwn arall fyddai gwahodd Capita i gyfarfod yn y dyfodol.

**Camau gweithredu:**

1. Ysgrifennu at Jane Hutt AS ynghylch y materion a ganlyn:
    - Gofyn i Lywodraeth Cymru gefnogi ap 'See Around Britain';
    - Gofyn barn y Llywodraeth ar benodi Comisiynydd Anabledd/Anableddau Dysgu.
    - Ei gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y materion hyn a materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod heddiw.
    - Rhoi gwybod iddi am gyflwyniad Rhys a gofyn iddi drefnu cyfarfod â Rhys.
2. Grŵp Cyfeirio Anableddau Cymru i ymchwilio i sut y gall y ddeddf gefnogi achos Rhys.
3. VW i anfon copi o lythyr Albert Heaney at Rhys.
4. Ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ofyn pa ymchwiliadau eraill sy'n cael eu cynnal neu, fel arall, ysgrifennu at Capita i wahodd cynrychiolwyr i gyfarfod yn y dyfodol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf.**

I'w gadarnhau.